

Enwebiadau i'r Bwrdd, Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cwmpas – Datganiadau Personol

Babs Lewis

Mae gwerthoedd Cwmpas yn adlewyrchu fy mlaenoriaethau proffesiynol a phersonol. Fel mentorai, sydd wedi eistedd gyda'r bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ffordd y mae'r sefydliad yn byw'r gwerthoedd hynny i helpu pobl yng Nghymru i gydweithio a chefnogi ei gilydd i gyflawni canlyniadau gwell wedi creu argraff arnaf yn gyson. Rwy'n weithiwr proffesiynol gyda sgiliau a phrofiad ar lefel genedlaethol a lleol ym maes datblygu busnes a rheoli prosiectau. Byddwn yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud cyfraniad i sefydliad sy'n cael ei arwain gan werthoedd mor effeithiol fel aelod o'r bwrdd. Yng Nghymru, mae gennym ddeddfwriaeth o'r radd flaenaf sy'n canolbwyntio ar les cenedlaethau'r dyfodol a chynaliadwyedd ein cymunedau. Mae gennym hefyd brinder iechyd a gofal cymdeithasol cronig, methiannau system gyfan a rhagor o heriau i ddod wrth i'n poblogaeth heneiddio. Dros y degawd diwethaf, rwyf wedi gweithio ym maes iechyd a gofal gyda phobl mewn cymunedau yn eu cefnogi i ddod o hyd i ffyrdd gwell o gydweithio ar draws ffiniau traddodiadol i hybu iechyd a lles. Mae gen i brofiad uniongyrchol o'r math o heriau a chymhlethdod y mae Cwmpas yn mynd i'r afael â nhw. Yn fy mywyd busnes rwyf wedi datblygu dulliau wedi'u pweru gan bobl i drawsnewid gwasanaethau a systemau, rheoli a darparu rhaglenni ar gyfer fy sefydliad fy hun - Nesta, yr Asiantaeth Arloesi Cymdeithasol - a chyda phartneriaethau lefel uchel, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Yn ganolog, mae fy holl waith wedi canolbwyntio ar alluogi pobl i feithrin y math o berthnasoedd sydd eu hangen i gydweithio ar draws ffiniau er budd y ddwy ochr. Credaf y gall y profiad a'r arbenigedd hwn fod o werth i Cwmpas fel sefydliad ac i'r bwrdd. Fy null bob amser yw cwrdd â phobl lle maen nhw, gan eu cefnogi i ddeall sut y gallant ddod at ei gilydd i gyd-ddylunio ffyrdd newydd o ddatrys yr heriau cymhleth sy'n ein hwynebu nawr. Mae gwerthfawrogi amrywiaeth a democratiaeth wrth wraidd fy ngwaith. Rwy'n gobeithio y gall fy sgiliau a'm profiad fel aelod o'r bwrdd gyfrannu at gefnogi Cwmpas i barhau i roi pobl yn gyntaf i gyflawni newid economaidd a chymdeithasol.

Grahame Sturges

Credaf y gallaf ddod â phrofiad defnyddiol i Fwrdd Cwmpas. Rwyf wedi ymddeol yn ddiweddar fel aelod o Fwrdd Grŵp Tai Unedig Cymru. Rwyf wedi bod yn aelod o'r Bwrdd ers 10 mlynedd ac yn Gadeirydd am 7 o'r rheini. Ochr yn ochr â'r rôl hon bŵm yn aelod o Fwrdd Caer Las; elusen ddigartrefedd wedi'i lleoli yn Abertawe.

Rwyf hefyd wedi gwasanaethu fel aelod Bwrdd gyda Theatr Spectacle, lle'r oedd strwythur y Bwrdd yn adlewyrchu pwyslais ar y staff yn berchen ar y broses greadigol. Rwy'n angerddol am Entrepreneuriaeth Gymdeithasol, potensial strwythurau cydweithredol, grymuso, a sut y gall cymunedau elwa yn erbyn trefn gymdeithasol ac economaidd sydd wedi'i phentyrru o blaid elw personol ac elw corfforaethau mawr.

Rwyf wedi chwarae rhan fel Cadeirydd UW yn datblygu ffatri ffrâm bren yn ystod y pandemig, y mae ei gwerthoedd yn cynnwys rhywfaint o entrepreneuriaeth gymdeithasol, gyda ffocws ar fuddion i denantiaid y sefydliad.

Rwy'n credu mai prif gynhwysyn Bwrdd sy'n perfformio'n dda yw Llywodraethu rhagorol. I'r perwyl hwn, rwyf wedi ymrwymo i hyrwyddo rôl y Bwrdd fel gwarcheidwad ethos a gwerthoedd y sefydliad, cyfeiriad strategol, dealltwriaeth a rheolaeth risg, hyfywedd y sefydliad a chydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol a chyfreithiol. Rwyf wedi ymrwymo i rôl y Bwrdd o ran dal y weithrediaeth yn atebol o fewn y fframwaith eang hwn, ac i annog amgylchedd lle gall y weithrediaeth ddod â'u gorau i'r gwaith.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gael fy ystyried ar gyfer y rôl fel aelod o Fwrdd Cwmpas.

Nigel Keane

Rwyf wedi bod yn aelod o fwrdd Cwmpas ers tua deng mlynedd ac wedi cyfrannu at ymdrech y tîm sydd wedi arwain Cwmpas drwy'r newidiadau niferus a welwyd yn y cyfnod hwnnw.

Rwy'n gefnogwr hirdymor o gydweithredu a gwerthoedd cydweithredol, ar ôl gwasanaethu yn flaenorol ar bob lefel o strwythurau democrataidd y Grŵp Cydweithredol. Gwasanaethais hefyd ar fwrdd Cymdeithas Datblygu Gydweithredol Caerdydd a'r Fro.

Er fy mod bellach wedi ymddeol, treuliais ugain mlynedd olaf fy ngyrfa yn hwyluso ymgysylltiad polisi ymhlith y gymuned fusnes, undebau llafur, Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru. Rwy'n aelod o Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr ac wedi cael nifer o rolau cysylltiedig â chyllid yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus.

Mae Cwmpas yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu atebion amgen i faterion economaidd a chymdeithasol, ac yn aml gall droi adfyd yn gyfle. Rwy'n gobeithio gallu parhau i weithio fel rhan o sefydliad unigryw gyda thîm rhagorol.